# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**Aelodau'r Cyngor**

17 Chwefror 2023

Annwyl Gynghorydd

Gofynnir ichi fynychu cyfarfod Cyngor Tref Yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar ddydd Mercher 22nd February 2023** yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Yr Wyddgrug. Bydd ar gael hefyd drwy fideo-gyndaledda fel cyfarfod hybrid; gweler y ddolen isod.

Yn ddiffuant,

Clerc a Swyddog Cyllid y Dref

## AGENDA

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

### 2. DATGANIADAU O FUDD

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd y gwyddys amdanynt mewn eitemau ar yr agenda.

### 3. CYHOEDDIADAU'R MAER

### 4. COFNODION

4.1 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 (ynghlwm).

4.2 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, Gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2023 (ynghlwm).

4.3 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2023 (ynghlwm).

4.4 Derbyn a chymeradwyo yn gofnod cywir, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mynwent a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 (ynghlwm).

**5. ADRODDIADAU SWYDDOGION - ADRODDIAD Y SWYDDOG DIGWYDDIADAU AC ADRODDIAD Y SWYDDOG PROSIECT ADFYWIO BUSNES**

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu â’r Gymuned (ynghlwm).

**6. TIPIO ANGHYFREITHLON**

Trafod y mater hwn, sy’n digwydd ambell waith ar dir preifat – y Cynghorydd T Carberry.

**7. CLWB BRECWAST RHWYDWAITH Y GYMUNED GELTAIDD**

Trafod faint y byddai Clwb Brecwast yn ei gostio - clwb y byddai o fantais i’r Swyddog Prosiect Adfywio Busnes ei fynychu. Digwyddiad a gynhelir bob pythefnos yw hwn y mae busnesau’n mynd iddo er mwyn rhwydweithio a rhoi cyhoeddusrwydd i’w busnesau.

Mae’r Swyddog PAB yn awgrymu y byddai mynd i’r digwyddiad bob 4-6 wythnos yn fanteisiol. Gofynnir i’r Cyngor ystyried mynychu’r digwyddiad nesaf a gynhelir ar ddydd Gwener 24 Chwefror. Y pris am frecwast yw £10, sy’n cynnwys cyfarfod o 7.30am-9am.

Dolen - https://www.eventbrite.co.uk/e/the-celtic-community-network-breakfast-tickets-546068905797?fbclid=IwAR3QYLQE36IOmE-AyIOH1IuQJpMkcx6f0EP4u_x0JDfxlafuz_UDPkcBfBY

**8. HYFFORDDIANT AR GYFER SWYDDOG**

Trafod hyfforddiant ar gyfer staff. Mae’r Swyddog PAB yn awyddus i fynd ar y cwrs ILCA (Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol). Gellir dilyn y cwrs ar-lein dros gyfnod o 12 mis a’i bris yw £120 + TAW. Mae’n cynnwys Swyddogaethau Craidd, y Gyfraith a Gweithdrefnau, Cyllid, Rheoli a Chymuned.

**9. HYSBYSIAD YNGHYLCH Y PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Nodi’r addroddiad ynghlwm.

**10. CYFARFODYDD A FYNYCHWYD**

Er mwyn i Aelodau roi adroddiad ysgrifenedig i’r Cyngor am unrhyw wybodaeth y maent wedi ei chael gan gyrff allanol.

## 11. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Derbyniwyd dau gais i'w hystyried.

## 12. CYFRIFON / TALIADAU

Cymeradwyo'r drefnlen atodedig sy'n dangos y cyfrifon y gwnaed trefniadau i'w talu – Mis 10, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

## 13. SWYDDI GWAG

I nodi'r sefyllfa ynghylch cynrychiolwyr ar gyrff allanol, Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor.

Pwyllgor Cynllunio - un swydd wag.

Is-grŵp y Gyllideb - un swydd wag.

Pwyllgor Polisi ac Archwilio – un swydd wag.

**SYLWER:**

Gall aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond heb gymryd rhan) drwy drefniant ymlaen llaw gyda Chlerc a Swyddog Cyllid y Dref).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**https://us02web.zoom.us/j/88907860545?pwd=aEdsdmw0NEozMFNkczE3ZWh4YlprUT09**

**Cyfeirnod y Cyfarfod: 889 0786 0545**
**Cod: 398198**